Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod Bwrdd
9 Gorffennaf 2013

Teitl y Papur	Dangosfwrdd Corfforaethol Drafft
Cyfeirnod y Papur:	Papur NRW B (O) 19/13
Noddwyd y Papur Gan: **Awdur y Papur Yw:**	Ceri Davies John Hogg

Pwrpas y Papur:	Rhoi'r newyddion diweddaraf ar baratoi'r Dangosfwrdd Corfforaethol ac amlinellu'r amserlenni adrodd ar gyfer 2013/14.
Argymhelliad:	Gwahoddir y Bwrdd i drafod a chytuno ar y Dangosfwrdd Corfforaethol, y drefn adrodd ar berfformiad a'r cynnig i gael tri chyfnod adrodd ar gyfer 2013/14.

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn rhoi gwybod am gyflawni gwelliannau amgylcheddol penodol. **Effaith ar yr Economi**: Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn rhoi gwybod am weithgareddau penodol sydd o fudd i'r economi. **Effaith ar y Gymuned**: Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn rhoi gwybod am weithgareddau penodol sydd o fudd i gymunedau. **Effaith ar Wybodaeth**: Byddwn yn bwrw golwg gyffredinol glir dros ein perfformiad, byddwn yn gallu rhoi gwybod am ein darpariaeth ac yn deall yr hyn sydd wedi'i gyflawni er mwyn i hynny lywio ein cynlluniau yn y dyfodol.

Pwnc trafod

1. Er mwyn dangos sut rydym yn perfformio o ran cyflawni'r Cynllun Busnes, ac yn unol â'n trefniadau llywodraethu, mae disgwyl i ni ddarparu gwybodaeth allweddol am berfformiad, yn ystod 2013/14, o ran cyflawni blaenoriaethau penodol a thargedau rhifol. Mae'r papur hwn yn rhoi manylion mesurau arfaethedig y Dangosfwrdd Corfforaethol ac yn cynnig y targedau y bydd ein perfformiad yn canolbwyntio arnynt ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/14.

Cefndir

2. Cynigiwyd fformat ar gyfer Dangosfwrdd Corfforaethol am flwyddyn yng nghyfarfod Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mai 2013, yn sgil Cynllun Busnes cyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru a Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd. Cynigiwyd y dylai fod yn amlwg ac yn syml i'w adrodd, er mwyn sicrhau y gwneir pob ymdrech i baratoi, yn ystod 2013/14, y Cynllun Corfforaethol cyntaf a Fframwaith Perfformiad llawn ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd tymor y Cynulliad hwn.

3. Penderfynodd y Bwrdd y dylai Dangosfwrdd Corfforaethol 2013/14 gynnwys 46 o fesurau wedi'u blaenoriaethu ac y dylid cyflwyno adroddiadau arnynt yn rheolaidd i Dîm Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru, y Bwrdd, yr Adran Nawdd a'r Gweinidog er mwyn bwrw golwg gyffredinol dros ein perfformiad. Law yn llaw â'r Dangosfwrdd Corfforaethol bydd Adroddiadau Cryno a fydd yn nodi digwyddiadau, llwyddiannau a gwyriadau perthnasol sy'n helpu i gadw golwg ar dargedau a cherrig milltir. Bydd y dangosfwrdd yn eistedd ochr yn ochr ag adroddiad ariannol ar wahân i'r Bwrdd a fydd yn rhoi sylw i'r risgiau cyfredol, mesurau lliniaru a pherfformiad ariannol cyffredinol.

Cynigion a'r Camau Nesaf

Mae ein Cyfarwyddiaethau wedi cydweithio i ddiffinio ymhellach bob un o'r mesurau ac i nodi cerrig milltir a thargedau penodol ar gyfer 2013/14. Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol i'w weld yn Atodiad 1, ac mae bellach yn cynnwys prif darged pob mesur. Dangosir manylion pob targed yn Atodiad 2. Ar gyfer nifer o'r mesurau, mae sawl elfen sy'n allweddol i gyflawni'r mesur cyfan. Nodir y rhain ynghyd â'r prif darged ac mae hynny'n rhoi i'r Tîm Gweithredol wybodaeth berthnasol i allu sicrhau ansawdd perfformiad yn gadarn, cyn adrodd i'r Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru drwy'r Adroddiadau Cryno. Rhoddir enghraifft o Adroddiad Cryno yn dangos perfformiad cyfredol gwirioneddol yn Atodiad 3.

3. Rydym wedi ymgynghori â thîm Nawdd Llywodraeth Cymru ac maent yn cefnogi'r targedau drafft.

4. Dyma'r cyfnodau adrodd sy'n cael eu cynnig:

- Adroddiad diweddaru ar lafar ar 17 Gorffennaf i Gyswllt Nawdd Llywodraeth Cymru.
- Adroddiadau'r Dangosfwrdd Corfforaethol :
  - 4 Medi i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar berfformiad yn ystod y pedwar mis cyntaf (Ebrill/Mai/Mehefin/Gorffennaf).
  - 12 Chwefror i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar berfformiad pum mis (Awst/Medi/Hydref/Tachwedd/Rhagfyr).
  - Mai 2014 (dyddiad i'w gadarnhau) i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar berfformiad y tri mis sy'n weddill (Ionawr/Chwefror/Mawrth).

Adroddir ar berfformiad gan ddefnyddio'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn y drefn isod:

a) Tîm Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru.
b) Fforwm Polisi Adrannol/Tîm Nawdd Llywodraeth Cymru.
c) Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.
ch) Cyfarfod â Gweinidog Llywodraeth Cymru.

Bydd pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn monitro ac yn adolygu perfformiad ei Gyfarwyddiaeth bob mis. Yna caiff perfformiad ei adolygu ar y cyd yn y drefn uchod, gan ddechrau â chraffu gofalus gan Dîm y Cyfarwyddwyr Gweithredol, yn unol â'r cyfnodau adrodd arfaethedig.

5. Nodir isod fanteision cael tri chyfnod adrodd a cheisio barn tîm nawdd Llywodraeth Cymru cyn cyfarfod y Bwrdd:

- Mae'n ei gwneud yn haws canolbwyntio ar ein darpariaeth weithredol drwy ysgafnhau'r baich adrodd ar staff y rheng flaen.
- Bydd modd gwneud arbedion drwy fod angen llai o ymdrech i gydlynu'r broses adrodd a byddai'n cyfrannu at y rhaglen bontio.
- Drwy gael tri chyfnod adrodd bob blwyddyn, a phedwar mis ym mhob cyfnod yn ddelfrydol, mae modd rheoli'n well effaith "dechrau'r flwyddyn" a'r prif gyfnodau gwyliau ar adroddiadau perfformiad.
- Mae'n gyfle i fwydo barn tîm Nawdd Llywodraeth Cymru i gyfarfodydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

6. Os ceir cefnogaeth y Bwrdd byddem yn ceisio cymeradwyaeth tîm Nawdd Llywodraeth Cymru i newid pa mor aml y rhoddir adroddiadau perfformiad yn y Ddogfen Fframwaith.

Cawsom gyngor gan is-grŵp o'r Bwrdd ynghylch datblygu'r opsiynau cychwynnol ar gyfer y Dangosfwrdd Corfforaethol. Byddem yn croesawu eu hymrwymiad i ddatblygu'r Fframwaith Perfformiad llawn ar gyfer y Cynllun Corfforaethol.

7. Gwahoddir y Bwrdd i drafod a chytuno ar y Dangosfwrdd Corfforaethol, y drefn adrodd am berfformiad a'r cynnig i gael tri chyfnod adrodd ar gyfer 2013/14.

Risgiau

8. Drwy ddefnyddio dangosfwrdd gall y Bwrdd fwrw golwg yn rheolaidd dros berfformiad y busnes. Os na osodir y targedau ar lefel briodol gallai edrych fel pe na baem yn gosod digon o her i ni ein hunain, neu ein bod yn rhy uchelgeisiol a byddwn yn ymddangos fel pe baem yn sefydliad sy'n methu.

9. Os na chaiff y dangosfwrdd ei adolygu mewn modd amserol bydd yn colli hygrededd o safbwynt ei werth o ran llywio ein perfformiad a bydd hynny'n effeithio'n andwyol ar ein henw da.

Y Goblygiadau Ariannol

10. Arbedion posibl yn y broses hwyluso a gynhelir gan yr adran Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol os newidiwn i dri adroddiad perfformiad y flwyddyn.

Materion Cyfreithiol a Chydymffurfio

11. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y Bwrdd i oruchwylio a chyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n atebol i Weinidog Llywodraeth Cymru.

Cyfathrebu

12. Bydd yn rhaid i'r Cyfarwyddwyr a'u timau ddeall y dulliau o ychwanegu at y dangosfwrdd a'i adolygu. Dylid rhoi copi o'r Dangosfwrdd Corfforaethol ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru lle gall y cyhoedd ei weld, a dylid diweddaru perfformiad arno pan ddaw'r wybodaeth honno i law.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

14. Ddim yn berthnasol

Mynegai'r Atodiadau

Atodiad 1: Dangosfwrdd Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru
Atodiad 2: Diffiniad o Fesurau a Thargedau'r Dangosfwrdd Corfforaethol
Atodiad 3: Enghraifft o Adroddiad Cryno'r Dangosfwrdd Corfforaethol